

# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog*

*07 Mawrth*

## *Adroddiad yr Uned Forwrol*

### *1 – Ffioedd a Thaliadau*

- 1.1 Mae'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â blwyddyn ariannol 2012/13 wedi eu cytuno gyda'r Arweinydd Portffolio. I sicrhau bod ein cleientiaid yn ymwybodol o'r taliadau sydd ar y gweill, mae'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig wedi cysylltu â'r holl gleientiaid ac wedi eu hysbysu o'r ffioedd a'r taliadau diwygiedig.
- 1.2 Rhagwelir y bydd y cynnydd mewn chwyddiant ar gyfer harbwr Porthmadog yn 2012/13 yn **3.25%**, ffigwr sydd wedi'i selio ar nifer o ffactorau sy'n codi a gostwng uwchlaw lefel y chwyddiant (Trydan ac ati). Er bod y mynegrif chwyddiant wedi'i gymhwyso i bob maes o'r gyllideb, bydd yr aelodau'n cofio bod cynnydd mewn cyflogau wedi aros yn llonydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
- 1.3 Mae copi o'r ffioedd a'r taliadau sy'n berthnasol i Borthmadog wedi'i atodi, a bydd yr aelodau'n nodi, er mwyn cydymffurfio â chyfradd y chwyddiant, y bydd rhaid cynyddu'r ffioedd a'r taliadau o **3.5%** yn 2012/13 ar gyfer pob cwch sy'n angori dan awdurdod harbwr Porthmadog. Mae cynnydd o'r fath i ffioedd a thaliadau yn destun pryder, gan y bydd unrhyw gynnydd yng nghost gweithgarwch hamdden yn effeithio ar y defnyddwyr eu hunain yn y pen draw. Bydd angen rhoi ystyriaeth i hyn i sicrhau na fydd unrhyw gynnydd yn effeithio'n andwyol ar incwm yr harbwr, o ganlyniad i berchnogion cychod yn cael eu hannog i beidio ag angori eu cychod mewn unrhyw harbwr yng Ngwynedd.
- 1.4 Gyda'r graddfeydd chwyddiant y soniwyd amdanynt eisoes wedi eu cymhwyso i'r gyllideb, mae'r cynnydd cyffredinol yn y targed incwm i Borthmadog ar gyfer 2012/13 yn **£2,450** sy'n dod a chyfanswm y targed incwm i **£77,910** ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Er bod diffyg bychan yn yr incwm i harbwr Porthmadog, rhagwelir y bydd y cynnydd yn y ffioedd angori, ar lefel fymryn uwch na chwyddiant, unwaith eto yn 2012/13 yn pontio'r cyfanswm sy'n parhau i gynyddu, wrth gymharu'r targed incwm gyda'r gwir incwm diwedd blwyddyn sy'n cael ei greu. Mae cwrdd â'r targed incwm yn bwysig yn enwedig o gofio bod disgwyliad i gadw oddi fewn i'r gyllideb gyda gwariant. Mae incwm wrth gwrs yn llwyr ddibynnol ar yr hinsawdd economaidd, ac ar p'un a fydd cleient yn penderfynu angori yn unrhyw un o'n harbyrau neu farinas ai peidio.
- 1.5 Bydd aelodau'n ymwybodol, pe bai'r incwm yn lleihau ac yn methu â chyflawni'n targed yn 2012/13, y bydd angen canfod a thrafod mesurau ac arbedion effeithlonrwydd pellach gyda staff. Bydd angen ystyried camau arloesol er mwyn sicrhau bod y gwariant cyffredinol a'r cyllidebau incwm yn cyrraedd eu targedau, heb gyfaddawdu ar safonau a diogelwch.
- 1.6 Mae'r ffioedd a'r taliadau sy'n berthnasol i gofrestru Cychod Pŵer a Cherbydau Dŵr Personol hefyd wedi cynyddu am y flwyddyn ariannol nesaf. Mae ffioedd lansio yn aros yn sefydlog ar £12.00 yr un ar gyfer lansio dyddiol. Mae copi o'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer Lansio a Chofrestru Cychod Pŵer wedi'i atodi.

- 1.7 Mae'r cynnydd yn nharged incwm cyffredinol yr Uned Forwrol ar gyfer 2012/13 yn **£97,590** sy'n cymharu â tharged cynnydd o **£57,330** yn 2011/12. Mae hyn yn cynyddu targed incwm cyffredinol yr Uned Forwrol (heb gynnwys Parciau Gwledig) i **£2,467,550** yn 2012/13, targed sylweddol fydd yn her i'w gyrraedd yn yr hinsawdd economaidd fregus a chyfnewidiol sydd ohoni.

## 2 - Cyllidebau

- 2.1 Mae sefyllfa ariannol harbwr Porthmadog ynghyd â'r gyllideb traethau gyffredinol sy'n cynnwys traeth Morfa Bychan, o drydydd chwarter y flwyddyn ariannol hon hyd at 31 Rhagfyr 2011, wedi'i atodi. Bydd yr aelodau'n nodi bod y targed incwm i harbwr Porthmadog ar gyfer 2011/12 yn **£75,460** a bod y cyfanswm incwm a gynhyrchwyd hyd ddiwedd Rhagfyr 2011 yn **£70,227**. Mae hyn o'i gymharu â chreu **£71,281** o incwm yn yr un cyfnod y llynedd. Ni ragwelir y gellir cynhyrchu incwm sylweddol yn ystod mis Chwefror a Mawrth, ac felly mae'n annhebygol y bydd y targed incwm yn cyrraedd y targed gofynnol yn y flwyddyn ariannol hon. Rhagwelir y bydd statws cyllideb gyffredinol harbwr Porthmadog ar 31 Mawrth 2010 yn weddill o £11,000. Mae hyn oherwydd arbedion yng nghyllideb gyffredinol cynnal a chadw angorfeydd, ac mae arbedion o'r fath ym Mhorthmadog yn hanfodol er mwyn sicrhau bod diffyg cyffredinol yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig o fewn y targed.
- 2.2 O ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol a'r gofyn i adnabod rhagor o arbedion, bydd 2012/13 yn flwyddyn heriol iawn i'r Uned Forwrol, yn enwedig yn yr harbyrau sy'n methu â chyfarfod y targedau incwm a'r targedau gwariant dro ar ôl tro. Pwysleisir y bydd rhaid goresgyn y gorwariant a'r diffyg mewn incwm, yn enwedig o gofio'r gostyngiad cyffredinol sylweddol yn y gyllideb sydd ar gael i Gyngor Gwynedd a'r arbedion sydd angen eu hadnabod yn y dyfodol.

## 3. Mordwyo- Angorfeydd

- 3.1 Tra cafodd nifer o Gymhorthion Mordwyo eu heffeithio gan wyntoedd eithriadol o gryf yn ystod yr hydref a dechrau'r gaeaf, mae'r rhan fwyaf o'r Cymhorthion Mordwyo sy'n arwain i harbwr Porthmadog wedi aros yn eu safle. Mae cyfanswm o ddeg Rhybudd i Forwyr wedi'u cyflwyno ar gyfer Porthmadog yn 2012, ac ar hyn o bryd, dim ond y Bwi Starbord Rhif 3 sydd dal i fod i ffwrdd o'i safle. Mae hyn yn dangos yn glir ymrwymiad yr Uned i ddarparu gwasanaeth lefel uchel yng nghyswllt Cymhorthion Mordwyo ym Mhorthmadog. Rhagwelir y bydd pob Cymhorthydd Mordwyo yn harbwr Porthmadog wedi derbyn sylw pellach ac yn ei safle cywir cyn y Pasg. Bydd safle bwi Rhif 3 yn cael ei drafod yn y cyfarfod, gan y nodwyd y gallai'r defnydd o fwi Rhif 3 ddod i derfyn. Ceisir barn yr aelodau cyn dod i gasgliad.
- 3.2 Yn y blynyddoedd cynt, sicrhodd yr Awdurdod bod yr holl gyfarpar mordwyo yn cael ei archwilio'n drylwyr, a buddsoddwyd swm sylweddol er mwyn amnewid cadwyn ddaear oedd wedi bod yn cael ei defnyddio am y 25 mlynedd diwethaf. Oherwydd y buddsoddiad blaenorol, nodwyd na fydd gofyn archwilio rhannau is yr angorfeydd yn 2012. Mae adroddiadau blaenorol yn dangos bod yr offer angori mewn cyflwr rhagorol yn 2011, ac felly ni fydd angen archwilio'r gadwyn ddaear cyn dechrau'r tymor hwylio.

Dosbarthwyd adroddiad manwl ar gyflwr yr angorfeydd ac ar y gwaith a wnaed ar bob angorfa yn 2011 i Aelodau yn y cyfarfod blaenorol.

- 3.3 Bydd yr holl angorfeydd sydd wedi'u lleoli ar flaendraeth Borth y Gest yn cael eu harchwilio gan yr Harbwr Feistr, ac fel yn 2011, adroddir na fydd angen symud unrhyw un o'r angorfeydd sydd wedi'u lleoli ar y blaendraeth cyn dechrau'r tymor hwyllo.

#### 4 - Staff

- 4.1 Gan ei bod yn ofynnol adnabod arbedion effeithlonrwydd o fewn ein cyllideb, a chan gofio bod gofyn i ni adnabod yn glir blaenoriaethau gwaith, penderfynwyd na fydd swydd y Cynorthwydd Harbwr ar gyfer harbyrau Porthmadog a Phwllheli yn cael ei hysbysebu ar gyfer y tymor nesaf. Er mwyn cefnogi meysydd eraill y gwasanaeth, bydd rota waith y Swyddog Morwrol Harbyrau a'r Swyddog Morwrol Traethau yn cael ei haddasu er mwyn sicrhau bod cefnogaeth ddigonol ar gael i harbwr Porthmadog a harbwr Pwllheli yn ystod y tymor nesaf.

Ar gyfer tymor yr haf, bydd nifer o swyddogion traeth yn cael eu penodi i reoli traeth Morfa Bychan, a bydd y swyddi hyn, yn gyffredinol, yn cychwyn ar 1 Ebrill er mwyn sicrhau bod goruchwyliaeth ddigonol ar y traeth yn ystod cyfnod gwyliau'r Pasg. Rhoddir adnoddau ychwanegol i'r traeth yn ystod cyfnod prysuraf tymor yr haf.

#### 5 *Gwelliannau*

Mae'r gwelliannau cyffredinol a ganlyn wedi'u gwneud ym Mhorthmadog yn ystod misoedd diweddar 2011 a rhan gynharaf 2012. Sicrhawyd arian ar gyfer y prosiectau o gyllidebau'r Uned Forwrol, a chyfraniad o Dderbyniadau Cyfalaf.

- Ail wynebu ochr y cei
- Rhoi wyneb ar Balmant yr Ardal Barcio
- Rac Cychod Gweini
- Cynnal a chadw tir a chyfleuster mwynderol Borth y Gest

Mae ystyriaeth yn cael ei roi i ddechrau codi tâl am gael defnyddio'r maes parcio tu ôl i swyddfa'r harbwr. Gofynnir am farn yr aelodau yn y cyfarfod. Bydd unrhyw incwm sy'n deillio o'r ardal barcio yn cyfrannu tuag at darged incwm harbwr Porthmadog.